# Cyngor Sir Caerfyrddin
# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2022-2023

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd a enwir isod am y cyfnod o fis Mai 2022 tan fis Mai 2023 (Blwyddyn y Cyngor). Fe'i darperir er gwybodaeth i etholwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad yw barn y Cynghorydd ac nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor Sir Caerfyrddin o reidrwydd.

| **Y Cynghorydd: Martyn Palfreman** | **Adran Etholiadol: Hengoed** |
|---|---|

| **Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau** |
|---|
| ***Pwyllgorau'r Cyngor:*** |
| |
| Y Cyngor Llawn |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio |
| Pwyllgor Penodi B - Penaethiaid Gwasanaeth |
| |
| ***Cofnod Presenoldeb:*** [Cofnod presenoldeb - Cyng. Martyn Palfreman (llyw.cymru)] |

| **Rhan 2: Gweithgareddau Etholaeth** |
|---|
| Ar ôl cael fy ethol yn un o ddau Gynghorydd Sir ar gyfer Hengoed ym mis Mai 2022, rwyf wedi ceisio ymgysylltu'n helaeth â chymunedau ar draws y Ward, sydd i'r gogledd-orllewin o Lanelli.<br><br>Gyda fy nghyd-aelod yn y Ward, y Cynghorydd Edward Skinner, cynhaliais gymorthfeydd ar gyfer yr etholwyr bob mis ers mis Mehefin 2022, ac eithrio mis Awst. Cynhaliwyd y cymorthfeydd hyn ar drydydd dydd Sadwrn y mis ac fe'u cynhaliwyd mewn lleoliadau ym mhob un o'r prif gymunedau yn y Ward, sef y Ffwrnes, y Pwll a'r Sandy/Strade. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd gwrdd â ni a thrafod unrhyw faterion sy'n achosi pryder. Cafodd ein cymhorthfa ym mis Ionawr 2023 ei chynnal ar y cyd gan yr AS lleol, y Fonesig Nia Griffith AS. Rydym hefyd wedi creu dau lythyr newyddion cyhoeddus sydd wedi'u dosbarthu i aelwydydd ar draws y Ward.<br><br>Fel Cynghorwyr Ward, rydym wedi mynd ar drywydd materion blaenoriaeth yn y gymuned, yn enwedig y problemau traffig ar Heol y Sandy, sydd wedi achosi llawer o bryder yn lleol ers rhai blynyddoedd. Rydym wedi cyfarfod â Swyddogion y Cyngor a'u hasiantiaid Atkins sawl tro ers cael ein hethol i drafod atebion posibl. Hefyd gwnaethom drefnu trafodaeth ehangach â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith ynghyd â Dirprwy Weinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer Newid Hinsawdd ym mis Mawrth 2023 i archwilio atebion posibl. Mae'r rhain yn parhau i gael eu ceisio ar adeg ysgrifennu. Yn ogystal, rydym hefyd wedi comisiynu GanBwyll i wirio cyflymder traffig mewn nifer o leoliadau ar draws y Ward ac rydym yn parhau i adolygu'r ardaloedd hyn. |

Er mwyn helpu i gadw'r ardal yn daclus, rydym wedi arwain sesiynau casglu sbwriel cymunedol yn y Strade, y Pwll a'r Ffwrnes. Mae hyn wedi bod yn gyfle gwych i ddod â thrigolion ynghyd ac i hyrwyddo gweithredu ar y cyd er budd y Ward.

Yn ogystal, rwyf hefyd wedi gweithio gyda thrigolion a swyddogion i fynd i'r afael â materion lleol sy'n ymwneud ag ystod o wasanaethau, gan gynnwys tai, cynllunio, priffyrdd, draenio, parcio, sbwriel, tipio anghyfreithlon a rheoli adeiladu, gan weithio gyda swyddogion y Cyngor a phartneriaid i sicrhau atebion cyflym i broblemau sy'n wynebu'r trigolion. Mae enghreifftiau o'r canlyniadau a gyflawnwyd i'r gymuned yn cynnwys codi arwyddion Dim Ffordd Drwodd newydd i annog modurwyr i beidio â cheisio defnyddio ffyrdd pengaead preswyl i dorri drwodd, cyfyngiadau parcio mewn lleoliadau peryglus a gwelliannau i blaciau enwau strydoedd ar ddatblygiad Parc y Strade i'w gwneud yn haws i yrwyr danfon nwyddau ac i ymwelwyr ddod o hyd i'r ffordd drwy'r ystâd.

Gyda chyd-gynghorwyr, rwyf wedi chwarae rhan weithredol ym Mhwyllgor Carnifal y Pwll, sydd wedi bod yn cynllunio'r carnifal cyntaf yn y pentref ers dros 30 mlynedd. Bydd yn cael ei gynnal ym mis Mehefin 2023. Rydym hefyd wedi cefnogi'r gwaith o sefydlu Grŵp Trigolion ar gyfer ardal Heol y Sandy, a fydd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

## Rhan 3: Cyrff Llywodraethu Ysgolion

| ***Rhestr o Gyrff Llywodraethu Ysgolion*** | ***Cofnod Presenoldeb*** | |
|---|---|---|
| | ***Nifer y Cyfarfodydd*** | ***Canran*** |
| | | |
| Ysgol y Ffwrnes | 3 | 100% |

## Adran 4: Dysgu a Datblygu

Ar ôl cael fy ethol, cymerais ran mewn rhaglen sefydlu gynhwysfawr a gynhaliwyd yn ystod Haf a Hydref 2022. Roedd y modiwlau a gwblhawyd yn rhychwantu ystod o feysydd, gan gynnwys codau ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig, blaenoriaethau'r polisi cenedlaethol a strategaethau allweddol y Cyngor Sir. Rwy'n parhau i ymrwymo i gymryd rhan ym mhob cyfle dysgu a datblygu a fydd yn fy helpu i ymgymryd â'm rôl fel Cynghorydd Sir mor effeithiol â phosibl.

## Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

Roeddwn yn aelod o Dasglu trawsbleidiol a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio, a ddatblygodd Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys. Mae'n symleiddio'r broses ddyrannu ac yn ceisio galluogi'r Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddefnyddio adnoddau tai prin i ddiwallu anghenion trigolion bregus a'r rhai sydd â'r angen mwyaf am dai, a hynny mor effeithiol a theg â phosibl.

Rwyf hefyd ar Banel Ymgynghorol trawsbleidiol ynghylch Trechu Tlodi ac rwyf wedi cyfrannu at fentrau ledled y Cyngor sydd â'r nod o gefnogi trigolion sy'n wynebu tlodi ac yn cael trafferth gydag effeithiau'r argyfwng costau byw. Mae'r Panel wedi helpu i lunio'r gwaith o ehangu canolfannau Hwb y Cyngor yng nghanol y trefi i ddarparu gwell cymorth a chyngor i drigolion ac wedi goruchwylio datblygiad Cynllun Trechu Tlodi'r Awdurdod.

| | |
|---|---|
| **Llofnodwyd gan y Cynghorydd: Martyn Palfreman** | **Dyddiad: Mai 2023** |